# Cefnogi eraill wrth asesu'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i ddarparu lleoliadau gwaith chwarae

## Trosolwg

Mae a wnelo'r safon hon â chefnogi eraill i ddarparu chwarae. Mae hyn yn cynnwys dilyn hynt sefydliadau ac unigolion perthnasol a allai elwa ar eich gwaith a'r anghenion a'r adnoddau sydd ganddyn nhw, eu hannog a'u helpu i gyfathrebu a rhwydweithio gyda'i gilydd a darparu adnoddau iddyn nhw.

**Prif ddeilliannau'r safon hon ydy:**

1. darganfod beth yw anghenion ac adnoddau gwaith chwarae sefydliadau ac unigolion eraill
2. helpu sefydliadau ac unigolion i rannu gwybodaeth am anghenion ac adnoddau
3. cydlynu'r ddarpariaeth adnoddau gwaith chwarae

Mae'r safon hon ar gyfer unigolyn sy'n gweithio ym maes gwaith chwarae, ac sy'n rheoli amryw o safleoedd traws-sector; unigolyn sy'n gweithio mewn rôl sy'n cynnwys rheoli nifer o leoliadau gwaith chwarae sydd â'r nod pennaf o ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc  chwarae fel maen nhw'n dewis ac yn dymuno ei wneud. Byddant yn gyfrifol am redeg y lleoliadau gwaith chwarae hyn, ac yn gyfrifol am staff niferus a'u lles.

**Mae'r safon hon yn ategu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Mae angen i weithwyr chwarae fod yn gyfarwydd â'r rhain, a lle bo'n bosib, eu defnyddio wrth eu gwaith ac wrth fyfyrio.**

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Darganfod beth yw anghenion ac adnoddau gwaith chwarae sefydliadau ac unigolion eraill**

1. ymgysylltu ag **eraill** a allai elwa ar eich gwaith
2. darganfod pa bobl **eraill** sydd â'r **adnoddau** i helpu'r rheini sydd ag anghenion tebyg
3. blaenoriaethu anghenion **eraill** yn unol â meini prawf sefydliadol a gytunwyd
4. cofnodi'r anghenion a'r **adnoddau** hyn yn glir ac yn gywir yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol
5. sicrhau bod **gwybodaeth** ar gael gyda chymeradwyaeth y bobl **eraill** sy'n gysylltiedig

**Helpu sefydliadau ac unigolion i rannu gwybodaeth am anghenion ac adnoddau**

1. sicrhau bod **gwybodaeth** yn cael ei throsglwyddo rhwng eraill yn effeithlon ac effeithiol yn ôl yr angen
2. casglu a rhoi **gwybodaeth** i **eraill**
3. cyflwyno pobl newydd i'r trefniadau rhwydweithio
4. casglu adborth gan y bobl **eraill** sydd yn gysylltiedig ac adolygu'r trefniadau rhwydweithio yn rheolaidd

**Cydlynu'r ddarpariaeth adnoddau gwaith chwarae**

1. rhoi gwybod i'r bobl **eraill** perthnasol am yr **adnoddau** sydd ar gael, unrhyw amodau sydd ynghlwm a sut y gallant gael gafael arnyn nhw
2. dilyn gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer dyrannu **adnoddau** i **eraill**
3. helpu **eraill** i wneud ceisiadau ar gyfer **adnoddau**, yn ôl yr angen
4. dyrannu **adnoddau**, yn ôl yr angen ac yn unol â meini prawf a blaenoriaethau sefydliadol a gytunwyd
5. gwirio bod yr **adnoddau** yn cael eu defnyddio yn unol â'r hyn a gytunwyd a delio ag unrhyw amrywiadau i'r cytundebau
6. monitro a gwerthuso adborth gan ddefnyddwyr ar y trefniadau dyrannu

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Darganfod beth yw anghenion ac adnoddau gwaith chwarae sefydliadau ac unigolion eraill**

*

*

***1. yr Egwyddorion Gwaith Chwarae sy'n rhan o fframwaith proffesiynol a moesegol gwaith chwarae a sut mae modd cymhwyso pob un o'r egwyddorion i'ch gwaith chi***
***2. sut i nodi* *eraill** sy'n berthnasol i'ch gwaith
3. sut i nodi a blaenoriaethu anghenion **eraill** yn ôl meini prawf sefydliadol a gytunwyd
4. pwysigrwydd cofnodi'r anghenion a'r **adnoddau**
5. sut i gadw'r **wybodaeth** ddiweddaraf, gywir am anghenion ac **adnoddau eraill**
6. pwysigrwydd cyfrinachedd a pheidio â datgelu gwybodaeth heb gytundeb pobl **eraill** berthnasol
7. pwysigrwydd cadw perthynas dda ag **eraill** sy'n gysylltiedig a sut i wneud hyn
8. pwysigrwydd cysylltu gyda grwpiau sy'n draddodiadol yn wynebu rhwystrau o ran mynediad a sut i wneud hyn

**Helpu sefydliadau ac unigolion i rannu gwybodaeth am anghenion ac adnoddau**

1. y prosesau y dylech eu dilyn er mwyn helpu cydweithwyr i addasu i'w rolau a chyfrifoldebau a'u datblygu
2. pwysigrwydd trosglwyddo **gwybodaeth** rhwng pawb sy'n gysylltiedig a sut i wneud hyn yn effeithlon ac effeithiol
3. sut i gyflwyno **gwybodaeth** mewn arddull a ffurf sy'n addas i bawb sy'n gysylltiedig a pham mae hyn yn bwysig
4. sut i gymryd cyfleoedd fel rhan o'ch gwaith bob dydd i gasglu a throsglwyddo **gwybodaeth** a nodi pobl newydd y gellir eu cyflwyno i'r trefniadau rhwydweithio
5. pwysigrwydd adolygu trefniadau rhwydweithio yn rheolaidd
6. sut i alluogi rhwydweithio sy'n cynnwys grwpiau sydd yn draddodiadol yn wynebu rhwystrau o ran mynediad

**Cydlynu'r ddarpariaeth adnoddau gwaith chwarae**

*
*

***15. pwysigrwydd rhoi gwybod i bobl am yr *adnoddau** sydd ar gael iddyn nhw
16. y gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer dyrannu **adnoddau**, sut ddylai sefydliadau wneud ceisiadau a sut dylid gwneud penderfyniadau am y ceisiadau hyn
17. **adnoddau** y gall fod eu hangen i gefnogi cynnwys plant anabl a sut i gael mynediad atynt a'u darparu
18. pwysigrwydd monitro sut mae **adnoddau** yn cael eu defnyddio a sicrhau bod trefniadau yn cael eu dilyn
19. pwysigrwydd cynnal adolygiadau rheolaidd o'r ffordd mae **adnoddau** yn cael eu dyrannu

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**Eraill***(o leiaf 4 allan o 7)*

1. sefydliadau
2. unigolion
3. adrannau yn yr un sefydliad
4. sefydliadau allanol
5. ymarferwyr eraill
6. gweithwyr proffesiynol eraill
7. grwpiau sy'n draddodiadol yn wynebu rhwystrau o ran mynediad

**Adnoddau**

1. ariannol
2. cyngor a gwybodaeth
3. adnoddau ffisegol
4. hyfforddiant a datblygiad

**Gwybodaeth**

1. ysgrifenedig
2. cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol
3. cyhoeddiadau
4. rhwydweithio

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth